# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 43. RHIF 7/8 RHAGFYR 2021 /IONAWR 2022 50c


# Lansio Llyfr ar Gymry Lerpwl

## gan Nan Hughes Parry

O dan nawdd Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi lansiwyd cyfrol clawr caled o'r gyfrol fawr *The Welsh in Liverpool: A Remarkable History* a hynny yng nghapel Bethel, Heathfield Road, Lerpwl ar Nos Lun, 11 Hydref 2021. Trefnwyd y noson gan awdur y gyfrol, y Parchedig Ddr. D. Ben Rees a gwelwyd sglein arbennig ar yr holl gyfraniadau. Trefnodd Dr Rees nifer o ddarlleniadau o'r gyfrol i'w cyflwyno yn ystod y noson a chlywyd lleisiau Dr. Arthur Thomas, Edward Brian Thomas, Mike Farnworth, Dr. Pat Williams a minnau. Methodd Mrs Beryl Williams a chymeryd ei lle gan iddi gael y Coronafeirws ac anfonwyd ein cofion ati hi a'i phriod gan ei fod yntau wedi ei wahodd i siarad ar ran Presbyteriaid y Glannau. Ond cafwyd cyfarchion o Gymdeithas Etifeddiaeth gan Dr. Arthur Thomas ac ar ran Cymry Lerpwl, Norma Lloyd Owen.


Adolygwyd y gyfrol yn ddeheuig iawn gan yr ysgolhaig Dr. Simon Brooks, o Borthygest. Daeth yr holl ffordd i gyflawni ei addewid ac am ei fod yn credu fod y gyfrol yn cyflawni cymwynas aruthol i'r cymdeithasau Saesneg a haneswyr lleol a rhai yn Lloegr a Phrydain. Nid ef oedd yr unig un a ddaeth o bellafoedd ffordd, braf oedd gweld y Parchedig John Morris a'i fab Rhys G. Morris o Langefni a hefyd David Mawdsley o Ddyffryn Clwyd.

Cafwyd cyfarfod dwyieithog o dan lywyddiaeth ac arweiniad y Parchedig Robert Parry gan osod ger ein bron raglen bleserus. Braf oedd cael tri datganiad gan grŵp y Parchedig David Williams, Crosby (gynt o gapel Stanley Road) a Chaplan Ysbyty'r Plant Alder Hey ers dros chwarter canrif.

Cyflwynodd yr awdur nifer o gyfrolau i'r rhai a fu yn gymorth amhrisiadwy iddo, yn arbennig Dr. Pat Williams ac Angela Lansley. Derbyniodd eraill gopïau o'r gyfrol am eu cymorth eithriadol, yn arbennig Mike Farnworth, Roderick a Norma Owen, W. Meirion Evans a fu'n cario'r llyfrau ar gyfer cyfarchion yr awdur.

Gobeithio y bydd gwerthu cystal ag a gafwyd ar y llyfr Cymraeg ar y gyfrol newydd, a bydd y cofnod yn Saesneg o hanes Cymry Lerpwl yn cael ei drosglwyddo i'r cenhedlaethau o Gymry a welir yn y ddinas. Diolchwn i'r Parchedig Ddr. D. Ben Rees am weithio mor galed, ac wedi rhoddi ar gof a chadw hanes y Cymry a wnaeth eu cartrefi a'u cyfraniad i fywyd y ddinas am ganrifoedd.

*(mwy o luniau ar dudalen 3)*




***D. Ben Rees a Simon Brooks***



***Y Band yn canu***



***Dr Pat Williams yn derbyn y gyfrol o law'r awdur***

*Lluniau gan Simon Brooks*

Golygyddol

# POENI AM YR HINSAWDD

## – gan D. Ben Rees

Yr ydym yn dra ffodus ein bod ni yn byw yn Lerpwl gan fod y tywydd yn eithriadol o garedig tuag atom. Pan mae eira mawr yn Sir y Fflint yr ydym ni yn y ddinas yn rhydd o broblemau ar y ffyrdd ac yn rhyfeddu fod Manceinion a'r trefydd oamgylch gydag eira a ninnau wedi dianc yn llwyr rhagddo. Dim ond yn achlysurol y bydd eira yn effeithio arnom yn y strydydd lle rydan ni'n byw tra mae'r prif ffyrdd, fel Menlove Avenue a Queens Drive yn rhydd ohono. Caiff Cymru ddigon o eira, cofiwn 1947 a hefyd 7 ac 8 Ionawr 1982, pan gaewyd yr holl ffyrdd, gan gynwys yr M4, a bu cymunedau gwledig fel Tregaron a hyd yn oed Bermo a Harlech yn anhyrgyrch am ddiwrnodau lawer. Ond dweud mae'r cyfan bod y byd yn araf boethi a bod ein stiwardiaeth ni fel dynoliaeth wedi peri trafferthion sydd yn peryglu bywyd gwledydd lawer.




Dyna pan y cynhelir yn Glasgow gynhadledd arall i drafod o ddifrif ein dyfodol fel planed a cheisio adfer llygedyn o obaith. Daw miloedd ynghyd am ddyddiau lawer (31 Hydref i 5 Tachwedd os wy'n cofio) i drafod gyda difrifoldeb gan wybod fod angen darbwyllo gwledydd Asia i leihau ei defnydd o lo yn arbennig. Anodd credu fod Awstralia yn un o'r pechaduriaid pennaf, gan fod maes glo y wlad fawr honno yn allforio yn helaeth lo i Seina, De Corea, Fietnam yn bennaf. Porthladd Newcastle yw'r porthladd prysursaf y byd o ran allforio glo, ac mae'n amlwg nad yw y Blaid Geidwadol Awstralia yn mynd i golli'r cyfalaf wrth leihau yr allforio.

Pan edrychwn ar hanes Cymru yn bennaf gwyddom fod glaw yn arbennig wedi gwneud yr henwlad yn un o wledydd gwlypaf yn Ewrop, a bod tref fel Blaenau Ffestiniog a phentref fel Capel Curig yn rhai o'r mannau gwlypaf y wlad i gyd. Ond y lle gwaethaf yw Abertawe lle mae gennym ddarllenwyr o'n papur bro. **Dyna'r ddinas wlypaf nid yn unig yng Nghymru ond ym Mhrydain i gyd. Lle sydd yn gorfod byw gyda glaw ac eto ni chlywaf neb o'r trigolion yn cwyno!**

Ond cyn dyfodiad Dewi Sant a Christnogaeth y Rhufeiniaid gwyddai y Cymry cynnar am effeithiau glaw ar eu bywydau. Dyna rheswm iddynt wneud Dŵr yn Dduw, a chyflwyno'n gyson iddo offrwm o'r tir wrth ffynhonnau niferus, afonydd, llynnoedd a hyd yn oes pistylloedd. Dyna pam yr ystyrir rhai o'r ffynhonnau hyn fel yr un yn Nhreffynnon yn sanctaidd ac yn haeddu pererindod hyd y dydd hwn.

Bu'n rhaid i'n cyndadau yn y Canol Oesoedd fyw gyda hinsawdd oedd yn ei llethu fel ag y gwnawn ni heddiw. Felly cofier mai nid stori gyfoes yn unig mohono, fe geir yr ofn a'r canlyniadau echrysus ym mhob canrif y bu pobl yn trigo ar y ddaear. Meddylier am yr hyn y ddigwyddodd yng Nghymru yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, pan brofwyd stormydd garw o dywod tebyg i'r hyn a brofir heddiw ym Mali o'r Sahara. Ysgubodd stormydd na welwyd mo'u tebyg cyn hynny dywod glân y môr tua'r tir, gan orchuddio cartrefi yn Rosili yng Ngwŷr a thref gaerog Cynffig, Corneli, nid nepell o Ben-y-bont-ar-Ogwr. Crewyd hafog ar Ynys Môn, gyda'r canlyniad i dwyni enfawr ddod yn rhan o dirlun Niwbwrch.



*Llifogydd Tywyn ger Abergele yn 1990*

Argyhoeddodd David Attenborough ni oll, mai cynhesu byd-eang sy'n gyfrifol am yr anhrefn a brofwn y blynyddoedd hyn o weld eirlysiau yn ymddangos yn ein gerddi yn nechrau mis Rhagfyr ac nid fel yr arferai ar gyfer Dydd Gŵyl Ddewi. Cawn aeafau mwynach a diolchaf am hynny fel un sy'n dioddef o ddolur y galon. Ni allaf ond swatio pan ddaw'r diwrnodau oer. Proffwydir gan wyddonwyr (ond rhaid ar ôl coronafeirws fod yn ofalus gyda'r rhain hefyd) y bydd tymheredd yng Nghymru wedi cynyddu rhwng 1.1 a 2.9°C erbyn 2080. Digon pell i ffwrdd Mister Gwyddonydd! Ond y darogan yw gaeafau gwlypach a hafau sychach ac nid oes angen i bobl dinasoedd bryderu, problem yw hynny i'r amaethwyr yr ucheldiroedd. Ond y mae un rhybudd mawr i Gymru o'r gaeafau gwlyb a hwnnw ydyw llifogydd allan o drefn. Cawsom ein rhybuddio o hyn ddeng mlynedd ar hugain a mwy yn ôl gyda'r llifogydd a welwyd yn Nyffryn Conwy a Dyffryn Teifi a chymoedd Morgannwg ac yn arbennig llifogydd difrifol Tywyn ger Abergele yn Chwefror 1990 pan oedd 26km sgwâr o dan ddŵr am wythnos gyfan gyda cannoedd o garafanau yn nofio yn y dyfroedd. Eleni cafodd aml i ddinas lif sydyn i lenwi'r tai a gwelwyd hyn yn Swydd Efrog, Dyffryn Hafren, Cwm Rhondda, Llanrwst ac yn ystod y flwyddyn bu strydoedd yn Llundain a Chaerdydd o dan ddŵr mawr.

Proffwydodd Mike Farnworth yn ei ddarlith ar Cantre'r Gwaelod fod hynny yn debygol o ddigwydd i bentref Y Friog yn Sir Feirionnydd. Mater o amser cyn y boddir pob tŷ yn y pentref, a'r ymfudwyr druan yn gwynebu nid am baradwys ond gofid Cantre'r Gwaelod. Wedi'r cyfan mae angen i Lywodraeth Cymru ddeffro a gwneud tegwch ag arfordir Cymru gan mai dim ond tua 30% o'r arfordir sydd â rhyw ffurf ar amddiffynfeydd môr. Aethom yn rhy ofnus. Oni ddylem fynd ati i ennill tir yn ôl o'r môr fel y gwnaeth Seina. Aeth y Comiwnyddion yn y wlad fawr honno i greu ynysoedd yn y môr lle gellir gosod adeiladau arnynt.

Ofnwn wynt cryf yn ogystal â dŵr a thân i'w gwynebu yn y newid hinsawdd. Mewn blwyddyn arferol gallwn ni yn Lerpwl a Gogledd Cymru ddisgwyl oddeutu ugain diwrnod cythryblus, tymhestlog allan o 365. Ydy hynny yn ormod? Ydy. Dylid cael ond dau ddiwrnod ohono. Gwyntoedd sydd bellach yn cael enw ar ei gyfer, ac yn chwythu yn ddidrugaredd gan godi y coed cryfaf o'u gwreiddiau, dinistrio tai ac eglwysi, peri gofid i'r moduron a'r ffyrdd. Ond un peth da a ddeilliodd o'r gwyntoedd a gawn yn gyson yw y Melinau Gwynt. Gwelais hwy yng Nghanoldir Cymru ar dirweddau gwylltaf Cymru wen, ac er ei bod yn creu dadl, mae lle iddynt er mwyn creu ynni glân sydd a'i wir angen arno fel cartrefi led led Prydain. Dyna ddigon inni gnoi cil arno, un o bynciau pwysicaf ein cenhedlaeth, ac yn haeddu ei drafod yn ein papur bro. Croeso mawr i unrhyw un sydd am ychwanegu at y ddadl gan obeithio y gwelwn o Glasgow weithredu ymarferol ac nid rhagor o ddadleuon rhwng ein harbenigwyr.



*Y Friog (Fairbourne) - pentref dan fygythiad*

# Lansio Llyfr ar Gymry Lerpwl



*Norma Lloyd Owen yn derbyn y gyfrol*



*Parchg. Robert Parry yn derbyn y rhodd am ei gymorth*



*W Meirion Evans, derbynydd arall o'r gyfrol*



*Cyfrol i'r Parchg. David Williams a'i ddau fab cerddgar*




*Dr Arthur Thomas o'r Gymdeithas Etifeddiaeth a'i gyfrol*

*Cyhoeddir*

***Cofiant Aneurin Bevan: Cawr o Gymro a Thad y Gwasanaeth Iechyd***

ar Sadwrn 20 Tachwedd 2021.

Mynnwch eich copi clawr meddal.
Pris £20



*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Anfonwn gyfarchion cynnes iawn i holl ddarllenwyr *Yr Angor* gan ddymuno yn dda i chwi a gobeithio eich bod yn cadw yn iach ac mewn ysbryd da.

Dyma ychydig o newyddion am ein aelodau.

Mae yr annwyl Sarah Davies sydd yn 99 oed wedi gwanhau yn fawr yn ystod yr wythnosau diwethaf ond y mae yn gyffyrddus ac yn cael gofal ardderchog gan ei ddwy ferch, Ann a Helen a'r gofalwyr eraill. Meddyliwn amdani yn dyner iawn a cofiwn amdani yn ein gweddïau.

Meddyliwn yn ddwys iawn am Beryl Davies a'i phryder am ei mab Colin sydd mewn hosbis yn Macclesfield. Nid yw'n bosibl iddi fynd i'w weld yn aml oherwydd gwahanol reolau, cofiwn amdani yn ein gweddïau.

Nid yw Alice Jones wedi gallu dod i'r oedfaon yn Seion ers rhai wythnosau. Rhyw ddeufis yn ôl cafodd lawdriniaeth ar ei llygaid a'i rhybuddio nad oedd i ddreifio'r car felly ni allai ddod i'r capel. Mae yn cael llawdriniaeth ar y lygaid arall ym mis Tachwedd felly ni welwn Alice, oedd mor ffyddlon am sbel o amser. Yn ffodus iawn byddwn yn cysylltu ar y ffôn ac y mae yn cael hanes Seion gennyf. Dymunwn yn dda i Alice wrth iddi gael yr ail lawdriniaeth.

Nifer fechan ohonom sydd yn Seion, rhai yn amlwg yn fethiedig ond y mae y rhai sydd yn gallu dod ar y Sul yn ffyddlon iawn a diolchaf iddynt am eu presenoldeb pob Sul ac i Gwyn Jones am yr holl waith y mae yn ei wneud yn y capel ac yn yr iard ffrynt.

Llongyfarchiadau mawr i Eibha, wyres Trefor ac Eirina Roberts a merch i'w mab Bryn. Mae Eibha wedi bod yn astudio physiotherapy ym Mhrifysgol Lerpwl ac yn ei harholiadau fe lwyddodd yn arbennig o dda gydag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf 1:1. Mae eisioes wedi derbyn swydd yn Ysbyty Walton Lerpwl ac fe fydd yn dechreu ar ei gwaith yno ymhen pythefnos. Dymunwn yn dda iddi yn ei gwaith. Mae yn bleser pob amser i glywed am lwyddiant ein pobl ifanc dyfodol ein gwlad.

Gobeithio y cewch fwynhad yn mynd o gwmpas yn ystod yr wythnosau nesaf ond cymerwch ofal a cadwch yn ddiogel.

Pob bendith arnoch i gyd.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*"Diolchwn, er ein bod weithiau yn ansicr o'r ffordd ymlaen, Dy fod wastad yno i'n cyfeirio; er ein bod wedi teimlo'n ddigalon; estynnais i ni ysbrydoliaeth, er ein bod wedi gwangalonni, rhoddaist i ni obaith. Arglwydd pob gobaith, Clyw ein gweddi*."

Hon yw ein gweddi ni ym Methel y dyddiau hyn. Cawn ein gwasanaethu ar y Suliau gan ein parchus Weinidog, y cyn-weinidog a da oedd croesawu Llywydd Sasiwn y Gogledd, y Parchedig Eric Greene a chawsom gwmni ei briod Haf Greene. Cawsom ddarlith a hir gofir ar *zoom* o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol ar 'Y Gymuned Ddu yn Lerpwl'. Daeth nifer dda ynghyd o bob rhan o Gymru, Caerdydd, Wrecsam a Llundain a chadeiriwyd gan y Parchg. Robert Parry. Pwysleisiodd ar Dr. D. Ben Rees ystyried gosod yr ymchwil pwysig hwn ar gof a chadw yn y Gymraeg gan fod angen dysgu ni am un o'n cymunedau a ddioddefodd gryn dipyn o ragfarn yn ystod ei bodolaeth ar y Glannau. Da oedd gweld Mr. R. Ifor Griffith yn bresennol yn y darlith a chroesawyd ef yn gynnes iawn gan y darlithydd a'r cadeirydd ar ôl ei driniaeth lawfeddygol.

Mae amryw o'n haelodau wedi bod yn yr ysbytai yn ddiweddar, rhai wedi cael dod adref erbyn hyn. Mae Mr. R. Ifor Griffith adref o Ysbyty Whiston ar ôl cael codwm yn ei gartref; Miss Hilda Lloyd wedi cael triniaeth ar ei llygaid; Mrs Menna Owen yn ysbyty Broadgreen; Mr. Ted Clement-Evans, yntau adref erbyn hyn. Mae Mrs Beryl Williams yn dechrau cryfhau ar ôl bod mewn cryn wendid a threulio wythnos yn yr ysbhty.


Ein dymuniadau gorau am wellhad buan i chi i gyd, ac y cawn eich cwmni efo yn fuan yn yr oedfaon, a chyfarfodydd ein capel. Gwyddom bod mam ein Gweinidog yn dal yn bur wael yn Llundain ac i fewn ac allan o'r ysbyty lle y caiff y gofal, fel ag yng nghartref ei merch. Cofiwn am Robert Parry, ei dad a'r holl deulu yn y dyddiau gofidus hyn.

<u>Ôl-nodiad y Golygydd:</u> Clywodd y Golygydd o ffynhonell ddibynadwy fod Dafydd Wrenall, Caerdydd (ŵyr Nan Hughes Parry) newydd ei ethol yn ddiacon yng nghapel y Bedyddwyr Cymraeg, Tabernacl, Caerdydd. Estynnwn fel eglwys Bethel lle y bu ef yn mynychu yn ffyddlon pan yn fyfyriwr ar gael ei ddewis. Gŵr ifanc ymroddedig a dawnus. Llongyfarchiadau cywir.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Braf oedd cael mewnbwn o Ogledd Lerpwl i Noson Lawnsio cyfrol clawr caled *The Welsh in Liverpool: A Remarkable History* a hynny ar nos Lun, 11 Hydref yn ein chwaer eglwys ym Methel. Methodd Elin Boyd fod yn bresennol a'i phriod, ond ar y diwrnod hwnnw oedd y cynhaliwyd arwyl brawd-yng-nghyfraith Jim Boyd. Ond cawsom gwmni Jennifer Cunningham a hynny ar y diwrnod y byddai ei thad J. Alun Edwards yn gant oed. Ganwyd ef yn 1921 a bu yn affaeliad mawr i Eglwys Bethania ac i fywyd Cymraeg Lerpwl. Da i Dr. D. Ben Rees dynnu sylw at hyn yn ystod y cyfarfod a hefyd darllen darn am deulu y Parchedig David Williams, Crosby a fu mor weithgar yn y Neuadd Genhadol yn Orrell. Cyflawnodd David a'i ddau fab ganeuon hyfryd yn y noson ddwyieithog, cyfarfod a lywyddwyd gan ein Gweinidog, y Parchedig Robert Parry. Anfonwn ein cofion at Mrs Menna Edwards, un arall a bwrcasodd y gyfrol hardd, ddarllenadwy sydd yn haeddu ein cefnogaeth ym Methania.

# CORNEL Y TRYSORYDD



**Rhagfyr 2021/Ionawr 2022**

| | |
|---|---|
| Mr a Mrs Dewi Evans, Y Bala | £20.00 |
| Mrs Mair Nadolig Jones, Y Bala | £20.00 |
| Miss Carys Jones, Lerpwl | £20.00 |
| Ms Ann Lees, Grassendale | £31.00 |
| Rhodd Eglwys Seion, Penbedw | £100.00 |
| Dienw, Lerpwl | £40.00 |
| **Cyfanswm** | **£231.00** |

**Diolch.**
**Roderick Owen (Trysorydd)**

CYMRAEG

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**


*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn LL23 7UH 07729 960484 aerontynycefn@gmail.com*

**Darn o Hunangofiant**

# Chwaraeon – Dyddiau Mebyd

### *gan Edward Brian Thomas*
### *Pennod 1*



*Edward Brian Thomas*

Un o'r pethau cyntaf mae Mam dda yn ei gyflawni efo'i phlant ydyw gwneud cysylltiad llygadol ac wedyn denu y plentyn i wneud rhyw fath o sŵn cysylltiol â hi. Pan mae'r baban yn gwneud cysylltiad llygadol ac yn gwneud sŵn 'babi' mae'r datblygiad emosiynol wedi ei ddechreu, ac o hynny ymlaen, mae'r sŵn a yngenir rhwng y ddau yn arwain at ddatblygiad pwysig yn nhyfiant y baban. Mae'r dysgu drwy chwarae wedi ei ddechreu, ac oherwydd y gwenu a'r cosi, a gwneud twrw dealladwy rhwng y ddau, mae'r plentyn yn barod i ddysgu chwarae. Fel y mae'r tyfiant yn mynd yn ei flaen a'r datblygiad corfforol yn digwydd, mae'r gallu i gyfathrebu a chwarae drwy gysylltiad uniongyrchol yn arwain at i'r baban ddysgu, bod chwarae a chyd chwarae, a chael pleser o'r herwydd yn dysgu gwersi pwysig iddynt.

Chwarae yn ei hanfod ydyw dau berson, neu fwy, yn gallu mwynhau antur bleserus sydd yn cryfhau dealltwriaeth, a phersonoliaeth y rhai sy'n cymeryd rhan, ac sydd yn arwain at gyd-chwarae yn gytûn, neu gall y gwrthwyneb ddigwydd, weithiau. Mae y cytgord hyn yn gallu clymu'r ddau berson yn ffrindiau am oes. Mae y gallu i gyd-fynd, a'r gallu i ddeall beth yw ystyr "rhoi a chymeryd" yn hanfodol i dyfiant a datblygiad iach. Yn anffodus mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd, ac mae chwarae sy'n troi'n chwerw yn gallu creu gelynion oes.

Fel mae'r plentyn yn cyrraedd oed ysgol mae wedi dysgu chwarae â chriw cyfyngedig o'i gyfoedion yn barod. Yn awr mae eisiau ei ddysgu i gyd-fyw yn gytûn gyda dewis o ffrindiau o'r un oed. Gwneir hyn yn y cefndir addysgol drwy ei ddwyn i gyd-chwarae, a thrwy hyn, gellir gwneud ffrindiau agos; cysylltiadau gweddol ddi-agos, a phlant eraill na fyddant byth yn gwneud gyfathrach â helynt, a hynny am amryw o resymau.

Yn nes ymlaen yn eu tyfiant, drwy gyd-chwarae, dysgant sut i ymddwyn yn eu tŷ eu hunain ac sut i ymddwyn yn nhŷ eu ffrindiau, drwy sylwi ar wahanol reolau a disgwyliadau mewn gwahanol leoedd. Mae bod yn reolwr y chwarae yn ei thŷ neu ei dŷ ei hun yn wahanol iawn i fod yn ddilynwr yn nhŷ rhywun arall. Mae'n bwysig iawn deall y gwahaniaeth er mwyn gwneud ffrindiau parhaol. Does neb un hapus iawn o blentyn sydd eisiau bod yn geffyl blaen ymhob man, ac sydd eisiau bod yn reolwr beunyddiol. Wrth ddysgu chwarae mae'n rhaid deall fod rheolau i'w cadw ymhob amgylchiad. Mae rheolau i'w cadw yn y gemau agos a phersonol, a rheolau i'w cadw mewn gemau mwyaf ffrufriol, a bod torri y rheolau yn arwain at wahanol fathau o gerydd. Mae anwybyddu rhai ohonynt yn gallu colli ffrindiau, ac mae torri rhai mewn gemau ffurfiol yn arwain yn anorfod at gerydd. Mae rheolau ar ymron bopeth mewn bywyd a dysgir eu canlyn hwy yn fuan iawn a hynny drwy chwarae ym myd plentyn.

Yn y dyddiau yma mae 'chwarae' wedi mynd yn weithgaredd wahanol iawn i blant byd y Cofid19. Er bob mantais o fyw mewn oes mor waraidd a'n hoes ni, mae cyfyngiadau ar allu plant i chwarae yn rhydd, yn naturiol effeithio ar eu datblygiad naturiol. Y gri barhaol yw fod y plant ddim yn chwarae ond eu bod ar eu 'i-pads' neu ar eu 'tablets' neu ar eu 'nintendos' yn ddi-baid, yn eu hystafelloedd, yn sbecian a ryw weithred na ŵyr neb ddim amdano, ond hwy eu hunain. Mae cymaint o berygl ynghlwm yn y weithred anweledig honno nes ein dychryn fel oedolion wrth glywed am ddigwyddiadau echrydus sy'n gallu arwain o'r "ystafelloedd duon" hyn. Ni allant chwarae ar y stryd am ei bod yn peryglu bywydau gyda'r holl drafnidiaeth, ac hyd yn oed allan yn y wlad mae rhieni ac ofn rhoddi pen-rhyddid i'w plant, am fod gormod o beryglon dynol yn digwydd i blant sydd a gormod o ryddid ganddynt. Maent yn byw bellach mewn byd sy'n cyfyngu eu datblygiad naturiol.

Roedd ein bod bach ni, oedd yn byw ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn dra gwahanol. Cyn belled a'n bod yn cyrraedd adref erbyn pryd bwyd; neu bod dealltwriaeth rhyngom ni â'n rhieni ynghyd a lle yr oeddem, roeddem yn rhydd i fynd yn ddi-lyfethair cyn belled ac ein bod yn 'byhafio' ein hunain. O edrych yn ôl, cyfaddefaf mai plentyndod o ryddid pur a gawsom ni. Teimlaf dros blant heddiw, yn enwedig yn y cyfnod erchyll Cofid19, sydd yn caethiwo plant i'w cartrefi ac nad



*Chwarae yn ei hanfod ydyw dau berson, neu fwy, yn gallu mwynhau antur bleserus*



*Chwarae wedi mynd yn weithgaredd wahanol iawn i blant byd y Cofid19.*

oes ganddynt neb ond eu rhieni a'u brodyr, neu eu chwiorydd i gyd-chwarae â hwy. Yn enwedig y plant sydd yn byw gyda mamau sengl. Y fam yn unig sydd ar gael. Bydd fy nghalon yn gwaedu pan welaf fachgen cyhyrog yn ceisio chwarae pêl-droed gyda'i fam a neb atall o'u cwmpas.

Roeddwn i yn bedwerydd plentyn o deulu o wyth o blant. Felly doeddwn byth yn amddifad o rywun i chwarae â hwy. Ond ar ôl mynd i'r ysgol gynradd a dechrau gwneud ffrindiau, heblaw am chwarae gemau yn y tŷ, pan fyddai yn tywyllu yn gynnar yn y gaeaf ac yn y penwythnosau pan oedd y tŷ yn 'dduwiol' a neb ohono yn cael 'chwarae'. Allan yn yr awyr agored y byddwn gydol fy amser yn cyfeillachu efo'm ffrindiau. O edrych yn ôl gyda llygaid hiraethus, roedd pob diwrnod yn ddiwrnod o anturiaethau, a phob diwrnod yn llawn o ddigwyddiadau anturus. Roedd pentref Penmachno yn llawn o blant, ac wrth fod y pentref wedi ei haneru gan yr afon a phont, roedd gennym ddau dîm naturiol at bob dim. Roedd pob gêm ar ein cae chwarae yn 'ochr yma' yn erbyn 'ochr draw'. Ni allwn byth fod yn unig. Wrth adael y tŷ byddai'n hawdd iawn cyfarfod â ffrindiau oedd yn barod i chwarae rhyw gêm, neu yn barod i chwilio am 'ddrygioni' diniwed. Y côf cyntaf sydd gennyf o chwarae gêm ffurfiol oedd ym muarth yr ysgol, er mai 'iard' oedd ei henw ni ar y 'buarth' hwnnw. Rhyfedd sut mae tafodiaith plant yn gallu newid. Mewn fferm yn unig ceir buarth yr adeg hynny. Cofio cael ein galw at ein gilydd a'n rhoi mewn rhwng ar ôl rhwng gan rai o hogiau mwyaf yr ysgol, a chael ein 'drillio' fel y buasem yn y fyddin. Cael ein rhybuddio wedyn i sefyll i 'attention' a 'stand at ease' a cael ein cythruddo am fethu a chanlyn y weithred syml honno yn ddigon buan. Yr hogia mawr yn gweiddi arnon i wrando ac ufuddhau a gweithredu. Ac wedyn yn cael ein 'martsio' yn ôl ac ymlaen i lawr yr iard, nes canai y gloch i'n galw yn ôl i'n dosbarth. Cofiwch mai amser y rhyfel ydoedd ac roedd brodyr rhai o'r hogiau wedi ymuno â'r fyddin. Cofio wedyn yn cael cansan efo pensil am ddianc o'r ysgol gyda'm ffrind pennaf Alec Pettigrew.

*(i'w barhau)*



*Pentref Penmachno – y pentref wedi ei haneru gan yr afon a phont.*
*Roedd pob gêm ar ein cae chwarae yn 'ochr yma' yn erbyn 'ochr draw'.*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

# CYDNABYDDIAETH A CHYFIAWNDER I GYMRY LLOEGR

Yn y ddwy erthygl flaenorol yn trafod dyfodol y gymdeithas Gymraeg yn Lloegr, ystyriwyd twf cenedlaetholdeb yng Nghymru a dinasyddiaeth Gymreig pe bai Cymru'n dod yn annibynnol. Y tro yma, byddwn yn edrych ar agweddau awdurdodau yn Lloegr at y Gymraeg a gofyn a ddylen nhw fod yn gwneud mwy drosti.

Fel mae sawl un wedi'i nodi, ychydig iawn o gefnogaeth mae Cymry yn Lloegr yn ei derbyn i gynnal eu diwylliant. Ac hyn er eu bod yn ffurfio cymuned leiafrifol y gellir olrhain ei thras yn ôl i ddyddiau Harri Tudur. Mae'r gymuned Gymreig yn un o leiafrifoedd ethnig hynaf Lloegr ac yn cynrychioli ffurf ddilys o amrywiaeth ddiwylliannol oddi mewn i'r wlad. Ac eto, mewn trafodaethau am amlddiwylliannedd mae'n cael ei hanwybyddu. Diolch o waelod calon i fudiadau fel Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi sydd wedi gweithio mor ddiwyd i warchod ein treftadaeth. Heb wirfoddolwyr o'r fath, go brin y byddai unrhyw goffâd o'n hetifeddiaeth o gwbl. Ac eto, ni ddylai hyn fod yn esgus i awdurdodau cyhoeddus esgeuluso eu dyletswyddau.

Mae'r sefyllfa annheg yma hyd yn oed yn fwy rhyfedd ac anghyfiawn pan ystyriwn mai oes yw hon sy'n rhoi pwyslais mawr ar fuddiannau lleiafrifoedd. Rwy'n llwyr gefnogol i'r ymdrechion hyn i gefnogi lleiafrifoedd yn Lloegr, boed y rheini'n lleiafrifoedd o ran hil neu ethnigrwydd neu grefydd neu ddiwylliant. Rydym oll ar ein hennill o fyw mewn cymunedau sy'n oddefgar o wahaniaethau diwylliannol, a bu dinasoedd a threfi Lloegr yn amlddiwylliannol erioed.

Ac eto, ynghanol y goddefgarwch cyffredinol hwn, nid oes odid ddim cydnabyddiaeth o'r diwylliant Cymraeg lleiafrifol, er bod y Gymraeg wedi ei siarad yn ddi-dor mewn dinasoedd fel Lerpwl, Manceinion a Llundain ers canrifoedd, a llawer o'r siaradwyr Cymraeg hyn wedi'u geni a'u magu yn Lloegr, ac yn wir heb fyw yng Nghymru erioed. Mae'r anwybyddu hwn yn fater o bryder a loes i lawer, a minnau yn eu plith. Ond sut daeth yr annhegwch hwn i fod?

Problem sylfaenol y Cymry yn Lloegr yw nad ydynt yn cael eu cydnabod gan awdurdodau Seisnig fel cymuned leiafrifol ddilys. Mae sawl rheswm am hyn. Yr un pwysicaf, efallai, yw fod Cymru'n rhan o Brydain. Mae tuedd anffodus yn y diwylliant Seisnig weithiau i anwybyddu gwahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol oddi mewn i Brydain, ac o ganlyniad mae gwahanrwydd y Cymry yn cael ei anwybyddu. Fe gymerir yn ganiataol fod y Cymry yn Lloegr yn rhan o'r brif ffrwd 'Brydeinig', ac nid oes ganddynt anghenion diwylliannol penodol.

Rheswm arall, yr un mor ganolog, yw fod amlddiwylliannedd yn Lloegr yn tueddu anwybyddu iaith. Y nod yn hytrach yw dysgu pawb i siarad Saesneg mor fuan ag sy'n bosib, a dim ond os na fedrir siarad Saesneg y darperir rhai gwasanaethau cyfyngedig mewn iaith arall. Problem fawr yw hyn i Gymry yn Lloegr gan fod iaith wrth galon eu hunaniaeth. Wrth anwybyddu iaith, mae amlddiwylliannedd yn diystyru'r elfen bwysicaf ar yr hunaniaeth Gymreig yn Lloegr.

Ar ben hynny, ceir dull o ddiffinio ethnigrwydd yn Lloegr sy'n anwybyddu bodolaeth y Cymry fel grŵp cymdeithasol. Er mwyn gosod polisïau i sicrhau cydraddoldeb ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a diwylliannol, tueddir troi at gategorïau sy'n cael eu pennu gan y cyfrifiad. Cyfrifir yn y cyfrifiad grwpiau Du ac Asïaidd, er enghraifft. Gan eu bod yn wynebu hiliaeth, mae'n bwysig inni fel cymuned Gymraeg ddatgan yn ddiamwys ein cefnogaeth i hyn. Ond dylid cofio y ceir hefyd yn y cyfrifiad gategorïau ethnig ar gyfer rhai grwpiau sy'n wyn at ei gilydd. Ymysg y rhain, mae Sipsiwn a Theithwyr (grŵp sy'n wynebu hiliaeth erchyll), Gwyddelod, a grwpiau 'gwyn' o'r tu allan i Brydain.

Does dim categori o'r math yma ar gyfer y Cymry, sydd yn cael eu cyfrif fel 'Prydeinwyr'. O ganlyniad, dyw'r Cymry ddim yn ymddangos mewn ystadegau a ddefnyddir i bennu polisïau amlddiwylliannol. Mae'n wir fod modd nodi cenedligrwydd Cymreig, neu fan geni yng Nghymru, ond mae hyn yn eithrio llawer o'r ail a'r drydedd genhedlaeth. A beth bynnag, ystadegau 'ethnigrwydd' a ddefnyddir yn bennaf erbyn hyn er mwyn sicrhau cyfartaledd mewn polisïau cydraddoldeb megis wrth ddosbarthu arian cyhoeddus i warchod treftadaeth lleiafrifoedd. Am nad ydynt yn ymddangos yn yr ystadegau hyn, mae'r Cymry yn Lloegr yn 'anweledig' a gellir eu hanwybyddu.

Does dim ffordd hawdd i ddatrys y broblem hon. Man cychwyn efallai yw tynnu sylw awdurdodau at yr anghysondeb a'r annhegwch. Ond yn yr hirdymor, mae angen i'r Cymry ennill cydnabyddiaeth ffurfiol yn Lloegr fel lleiafrif. Heb hynny, mae'n annhebygol iawn y bydd cefnogaeth o ddifrif i'n diwylliant a threftadaeth Gymreig.



***SIMON BROOKS***

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Chwefror 2022** – erbyn bore Llun, 3 Ionawr, 2022 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Llun.
- **Rhifyn Mawrth 2022 –** erbyn bore Mawrth, 1 Chwefror 2022, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.
- **Rhifyn Ebrill 2022** erbyn bore Mawrth, 1 Mawrth 2022 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 30/12/2021.**

# TARO POST AC E-BOST

## Llyfr "The Welsh in Liverpool - A Remarkable History 2021"

*Annwyl Dr. Rees,*

Prif ddiben y neges yma yw i gyflwyno yn ddiolchgar fawr iawn ichwi am anfon copi o'ch llyfr uchod imi drwy'r post a ddaeth y bore yma. Diolch o galon hefyd am roi eich ochenaid personol imi yn y llyfr a byddaf yn ei drysori yn ogystal ag edrych ymlaen at ei ddarllen, (er fy mod wedi cael blas yn barod drwy'r gyhoeddiad Gymraeg o'r llyfr "Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl" a gefais beth amser yn ôl). Hefyd y papur "Booklaunch" oedd i fewn efo'r llyfr.

Rhag ofn fe fydd o ryw ddiddordeb ichwi wybod for un o wyrion, Michael D Jones, sef Thomas ap Rhys (un o feibion, merch hynaf MDJ - Myfanwy Rhys yn Bangor gynt) oedd yn un cyntaf yng Nghymru i gael ci tywys i'r dall (a'r un o'r pedwar cyntaf ym Mhrydain) yn 1931. Roedd yn ddall o effeithiau'r nwy yn WW1. Fe'u hyfforddwyd nhw gyda'r cŵn yn Wallasey yn y flwyddyn yna.

Mae'r Gymdeithas Ci Tywys i'r Dall (Guide Dog for the Blind Association) yn dathlu 90 mlynedd ers iddynt ddechrau yn Hydref 1931. Fe gafodd un o wyresau Thomas (Helen Davies ac ail gefnither imi) gael cyfweld gyda'r *Mail on Sunday* yn eu gardd arbennig yn Sioe Blodau Chelsea yn ddiweddar. Bydd yr erthygl am fywyd Thomas a'i gŵn yn y *Mail on Sunday* ar ddydd Sul 24ain Hydref i ddod - os gewch eich awydd i'w brynu.

*Diolch yn fawr iawn eto. Yr eiddoch yn ddiffuant,*
*Alun Owen*

### *LLYTHYR O DDIOLCH GAN SIONED, GWENAN A BETHAN*

Dymunaf ar ran Gwenan, Bethan a minnau mynegi ein diolchgarwch diffuant am yr holl garedigrwydd a chefnogaeth a roddwyd yn ystod yr amser oedd Mam yng Nghartref Stapely, ac yna'n dilyn ein profedigaeth fawr a thrist o golli Mam a Nain annwyl. Mae'r holl negeseuon a chefnogaeth yr ydym wedi'u derbyn yn gysur mawr inni. Rydym yn falch i gyhoeddi casglwyd swm o dros £300 er côf am Mam i 'Plant mewn Angen'.

*Sioned*

### *LLYTHYR DIOLCH ODDI WRTH JOHN a BERYL WILLIAMS*

Dymuna John a Beryl ddiolch am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn ystod salwch Beryl. Erbyn hyn mae Beryl adref o'r ysbyty ac yn cryfhau.

*Diolch yn fawr iawn i bawb*
*John a Beryl Williams*

***Englyn Anghofiedig – Angen Help?***

### *Y Llon a'r Lleddf*

*Wedi'r wawr, adar y wig, – a'u swynol*
*Wasanaeth o fiwsig,*
*I Dduw ganant yn ddiddig*
*O na bae gen innau big.*

*Elias Pierce, Liscard, Wallasey*

Daeth y Golygydd ar draws hwn yn ei bapurau, a chred fod y bardd wedi taro deuddeg. Os wyddoch pwy oedd Elias Pierce, rhiowch wybod inni ar fyrder .

Cyfarchion y Nadolig i Bawb o Ddarllenwyr Yr Angor gyda'r diolch pennaf am eich cefnogaeth. Cofiwn eiriau y bardd o'r Bala, R. J. Rowlands yn ei englyn

***Ar Gerdyn Nadolig***

*Wrth fwrdd y wledd eisteddwn,*
*o ganol*
*Digonedd y codwn:*
*Heddiw nac anwybyddwn*
*Waedd y lleill am weddill hwn.*

Bydd cyfle genym i gofio gwaedd y lleill trwy'r holl elusennau sydd ar gael yn ein cylch yn Nadolig 2021.

*Diolch D. Ben Rees a Phwyllgor Gwaith Yr Angor*

**Cymdeithas Lenyddol Lerpwl (Bethel) yn eich gwahodd i ddwy ddarlith.**

Y gyntaf ar Nos Lun, 15 Tachwedd am 7.30 (mynediad ar ôl 7.15) ar zoom.
Y testun:

***J. Saunders Lewis (1893-1985): un o Gewri Cymry'r Glannau***

gan y Parchg. Ddr. D. Ben Rees.
Cadeirydd: Parchg. Robert Parry.

Yna ar nos Lun, 6 Rhagfyr 2011 yng Nghanolfan y Cymry

***'Caneuon a Charolau y Nadolig'***

Ceir cyfuniad rhwng y Parchedigion Robert Parry a D. Ben Rees.
Y cyfarfod i ddechrau am 7.30 o'r gloch.

## Y Duw-Ddyn

*Pan yr ymgnawdolodd Duwdod,*
*Gwelwyd ei ogoniant Ef*
*Gan y doethion a'r bugeiliaid*
*Ac angylion glân y nef.*
*I'w addoli a'i was'naethu,*
*Plygant i'r Tragwyddol Air,*
*Crëwr a Chynhaliwr bydoedd*
*'Baban bach ar luniau Mair'.*

John J. Bebb, Lerpwl



**CYFRES NEWYDD**

# MANCEINION DDOE A HEDDIW

## CAPEL STOCKPORT


### gan y Parchedig Eleri Edwards

Roedd gan erthygl yn y *Stockport Advertiser* golofn o'r enw ***'Know your Church'*** a'r rhif 64 yn y gyfres hon oedd *'The Welsh Chapel'*. Mae gennym aelodau o hyd a arferai fynd i gapel Stockport ond mae'r erthygl hwn yn olrhain dechreuadau'r Achos ac yn dweud bod yr hadau ar gyfer Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Stockport wedi'u hau ym Manceinion mor bell yn ôl â 1788 pan wahoddodd un, Edward Jones, brodor o Ynys Môn ffrindiau i gwrdd ar gyfer cyfarfodydd gweddi yn ei gartref yn Pump Street Bank Top.

Mae'r erthygl yn mynd ymlaen i olrhain helbulon a diffyg llwyddiant ar adegau wedi hynny, ond daeth tro ar fyd a mwy o gefnogaeth pan gafwyd gwasanaethau yn Gymraeg mewn ystafell wedi ei llogi yn y Capel Annibynol Wycliffe, Heaton Norris ac yna yn y Mechanics Institute. Ar 25 o Orffennaf 1876 gwnaethpwyd cais pendant am gapel Cymraeg yn Stockport. Gwahoddwyd Mr Thomas Williams, pregethwr lleyg, i fod yn weinidog arnynt a rhoddwyd iddo dŷ yn Beauchamp Road a chyflog o £29/10s am flwyddyn o waith! Roedd yn ddyn cyfeillgar ac roedd yn hoff iawn o blant, yn gallu gorffen pregeth gyda phlentyn bach yn ei freichiau!

Wrth sôn am blant, mor bell yn ôl i 1884, yn rhestr 12 Eglwys Cyfarfod Misol Manchester am yr Ysgolion Sul, roedd Stockport yn dangos bod ganddynt 36 o blant yn mynychu a 4 o athrawon. Roeddent ymhlith y capeli llai ond nid y lleiaf chwaith. Daeth Mr Charles o'r Bala i Fanceinion i bregethu yn 1795, yn ôl hanes yr Ysgol Sul ym Manceinion a roddodd Mr John Davies a Mr Robert Lloyd ym 1885. Fe 'roddodd anogaeth gref a chynnes i'w wrandawyr i ffurfio Ysgol Sabbothol' meddai'r dyfyniad a pharhau: 'Roedd calon fawr a chynnes y Parch Thomas Charles yn llosgi yn ei fynwes wrth weled sefyllfa isel ein cenedl, yr anwybodaeth a'r ofergoeledd, a'r diffyg adnabyddiaeth o Dduw.'

Fel canlyniad, daeth gwaith yr Ysgol Sabbothol yn bwysig ym Manceinion ac roedd aml i ddathliad i'r plant. Erbyn 1885 can mlynedd oddi ar ymweliad Thomas Charles, cafwyd dathlu mawr ar ganmlwyddiant yr Ysgol Sul a gynhaliwyd i gapeli'r Cyfarfod Misol cyfan yng nghapel Moss Side. Roedd yna faneri niferus ym mhob man o gwmpas y capel – tu ôl i'r pulpud 'BIBL I BAWB O BOBL Y BYD'; llun o Thomas Charles y Bala, a sefydlodd Ysgolion Sul yn 1795, ar flaen y pulpud, gyda'r geiriau oddi tanodd yn dweud: 'WEDI MARW YN LLEFARU ETO' ; O bob ochor i'r pulpud y geiriau 'CANMLWYDDIANT YR YSGOL SABBOTHOL'; ar ffrynt y galeri yn wynbebu'r pulpud cafwyd y gair 'WELCOME'; ac o amgylch y galeri y baneri gyda'r geiriau: 'GOREU ARF, ARF DYSG' 'MEWN UNDEB MAE NERTH' 'GOD IS LOVE' 'CHWILIWCH YR YSGRYTHURAU' 'TRUST IN GOD AND DO THE RIGHT' 'GOLEUNI Y BYWYD' 'EIN HIAITH SY'N NERTHOL' 'BYWIOL YW GAIR DUW.' Yn yr ysgoldy roedd llawer o flodau a dail yn harddu'r ystafell a'r geiriau 'PARENTS CONSIDER YOUR EXAMPLE'. Roedd yr anerchiadau yn ddiddorol iawn ar 'y




modd gorau i gyfaddasu addysg yr Ysgol Sabbothol ar gyfer y plant' a chafwyd pennillion ar y dystiolaeth Gristnogol Gymraeg yn y ddinas wedi ei adrodd gan Idris Vychan yn dweud:


1) Ardwick ydyw Benjamin bach
Ymhlith capeli'r ddinas,
Ei olwg sydd yn hynod iach
Mae'n dod i lwydd ac urddas,
Y fechan â yn genedl gref,
A hawdd yw hyn i'w brofi
Mae pawb o'r teulu fel un gŵr
Yn dal'r Hen Gorph i fyny.


2) Os cyll y Cymry eu hen iaith
Collant eu crefydd hefyd
Fe gollodd llawer genedl gref
Yr hyn oedd werth eu bywyd;
Boed llwyddiant grymus yn ein plith
A phawb mewn cariad brawdol;
A'r iaith Gymraeg a'i melys sain
Fo'n nhemlau Duw'n wastadol.

3) O gylch Manceinion gydag aidd
Mae'r Cymry yn ymdrechgar.
Yn cadw'r Ysgol Sul mewn bri
Yn unol ac i 'wyllysgar;
Estynnant eu cortynau'n llon,
Heb neb yn gwrthryfela;
Meddianant eto yn y man
O Dan i Beer-seba.

Penderfynwyd ym 1893 adeiladu'r Capel Cymraeg yn Wellington street a gosodwyd y garreg sylfaen ar Hydref 7fed 1893 gan Syr Joseph Leigh AS, ac roedd Mr John Turner y Maer, Mr William Lees YH a Mr Freddy Rockings yn mynychu hefyd, pobl o bwys yn yr ardal. Agorwyd y Capel, o'r diwedd, ar gyfer gwasanaethau ar Fawrth 10fed 1894 a'r pregethwr cyntaf oedd y Parch Lewis Edwards o'r Bala. Yn 1895, daeth Mr Thomas Hughes, myfyriwr yng Ngholeg Diwinyddol y Bala, yn weinidog i Gapel newydd Stockport, arhosodd tan y ganrif nesaf.

Yn yr erthygl, mae'r papur yn rhestru enwau'r gwahanol weinidogion ar hyd y blynyddoedd yn yr 20fed Ganrif. Dilynodd Parch T. Trefor Jones Thomas Hughes yn 1914.Ym 1921 daeth y Parch William Rowlands ac yna yn 1935




*Lluniau gan Mrs Margaret Hughes*

cymerodd y Parch W. E. Roberts y cyfrifoldeb. Yn 1943 daeth Parch William Thomas am gyfnod byr ac ar ei ôl y Parchedigion Marc Davies, R.O. Jones a Gwynfa Roberts. Nid oes gwybodaeth geni am bob un o'r rhain.

Ond mewn papur newydd o 1933, darllenais am farwolaeth y Parch William Rowlands Stockport – yr un flwyddyn a'i gyd-weithiwr yn Victoria Park, y Parch W. J. Jones. Efallai bod gweithio mewn dinas brysur yn golygu stress mawr i weinidogion, pwy a ŵyr? Meddai'r deyrnged: 'Daeth Mr Rowlands o Acrefair yn 1922 a gweithiodd yn egnïol a llwyddiannus yng nghylch Stockport. Yr oedd gair da iddo yn ei eglwys ei hun a hefyd yng nghylch eglwysi Rhyddion Stockport. Cafodd y Genhadaeth Dramor yn helaeth o'i lafur a'i serch. Pregethai â'i enaid yn llawn dwyster gan ymdeimlad a phwysigrwydd ei genadwri.'

Fel sy'n digwydd weithiau i Gapeli Cymru dros y ffin, nid arhosodd rhai gweinidogion am gyfnodau hir ond mae un achos trist yn sefyll allan. Blwyddyn gyntaf ei arhosiad, ychydig ar ôl i'r Parch William Thomas ysgrifennu ei lythyr blynyddol cyntaf at yr aelodau yn adroddiad blynyddol 1946, (mae'r adroddiad blynyddol yn hanfodol ym mhob capel Presbyteraidd Cymraeg,) aeth yn wael ar ôl cael triniaeth yn Ysbyty Stepping Hill ac yn y mis Chwefror 1947 bu farw'n sydyn. Ergyd ofnadwy i flaenoriaid ac aelodau'r Capel. Ei neges olaf i'w braidd oedd: 'Gwnawn ymdrech y flwyddyn hon i ennill tir newydd, 'Dwed wrth y bobl am gerdded rhagddynt'(Ecsodus 14:15b) oedd gorchymyn yr Arglwydd i Moses. Erys yr un gorchymyn hyd heddiw. Gwrandawn arno ac ufuddhawn iddo.'Diolch am yr her o'r gorffennol i'n hysbrydoli yn y dyfodol!

Ond parhaodd y weinidogaeth a'r ffyddloniaid yng nghapel Wellinton Street tan 1978 pan oedd rhaid i'r capel gau oherwydd ail-wampio'r dref ac angen dymchwel yr adeiladau. Symud i gapel arall oedd hanes yr aelodau, aethant o Wellington Street, Stockport i ymuno gydag aelodau Oaker Avenue, Didsbury ac roeddent yn gaffaeliad mawr i'w capel newydd ar hyd y blynyddoedd. Dim ond yn 2020 bu farw yr annwyl Mrs Lois Murphy yn 98 oed, wedi oes o wasanaeth i gapeli Cymraeg yr ardal, yn flaenores gydwybodol a gwybodus.

Fel gweinidog wedi ymddeol erbyn hyn, mae'n rhaid imi ddweud bod cynulleidfa mewn dinas dros y ffin yn arbennig iawn, yn ei brwdfrydedd a'i dycnwch i gadw'r capel Cymraeg ar agor er gwaethaf pob anhawster. Mae yn fraint fawr imi gydweithio â chyfeillion Manceinion – fel roedd hi yn wir â chyfeillion Lerpwl pan oeddwn yn gaplan yno - oherwydd eu cefnogaeth gadarn a'u cariad at achos Iesu Grist. A dyma ni Manceinion, Lerpwl a Penbedw yn ymuno er mwyn cydweithio yn agosach yn y dyfodol.

Dyfalbarhawn hyd y diwedd, ffrindiau annwyl, a diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb. Mae gennym gyfnod newydd o'n blaen gyda gweinidog ifanc a pharod, y Parchedig Robert Parry, i wasanaethu yn ein hardaloedd dinesig yn y dyfodol. Peidiwn â llaesu dwylo ond cyd-weithiwn yn weddigar er clod i Dduw ac er llawenydd i ni, a, gobeithiwn, er budd i'n cyd-ddynion.

***Cyflwyno***

# KAREN OWEN

## gan Dr. Pat Williams



*Karen Owen*

Bardd o Ben-y-groes yw Karen Owen, ond nid llenyddiaeth oedd ei maes astudiaeth cyntaf. Wedi gadael yr ysgol, gwnaeth radd mewn Mathemateg Pur ond penderfynodd newid trywydd a dilyn gyrfa fel newyddiadurwraig. Ei swydd gyntaf oedd Gohebydd yn y Celfyddydau i *Golwg* nes ei phenodi yn olygydd y cylchgrawn hwnnw. Yna bu'n cynhyrchu rhaglenni crefyddol i'r BBC ym Mangor am dair blynedd cyn iddi ddychwelyd i weithio fel newyddiadurwraig gyda'r *Cymro* ac fel awdur llawrydd, gan gyfrannu colofnau i nifer o bapurau a chyfnodolion safonol eraill. Dechreuodd farddoni hefyd ac enillodd nifer o gadeiriau a choronau mewn eisteddfodau lleol a rhanbarthol.

Mae hi wedi cyhoeddi tair cyfrol o farddoniaeth sy'n cynnwys cerddi yn y mesurau caeth a rhydd. Digwyddiadau mewn lleoedd gwahanol a safle pobl o fewn y gymdeithas a ysgogodd ei chyfrol gyntaf, *Yn fy lle*. Er enghraifft, cyfansoddodd gerdd lawn gobaith i gofnodi agor capel newydd ym Mhen-y-groes pan ymunodd dwy eglwys Bresbyteraidd i ffurfio un achos, ac ar ôl ymweld ag ynys Iona lluniodd gerdd i nodi ei hanniddigrwydd fod y lle sanctaidd yn troi'n 'barc picnic' i ymwelwyr na wyddent ddim ac na hidient am bwysigrwydd yr ynys fel canolfan grefyddol. Mae nifer o gerddi yn y gyfrol yn deyrngedau i enwogion y genedl fel John Roberts Williams a fu'n golygu *Y Cymro* am flynyddoedd lawer, a Mererid Hopwood, y ferch gyntaf i ennill cadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Ond y cerddi mwyaf cofiadwy yw'r gyfres yn ymwneud â'r 'Begar Bach' a gyfansoddodd ar ôl iddi fod yn begera ar strydoedd Bangor am ddiwrnod cyfan a dod i 'wybod ei lle'.

Tipyn yn wahanol yw'r gyfrol *Siarad trwy'i Het*, oherwydd yn ogystal â cherddi, mae'n cynnwys ffotograffau a dynnwyd gan y bardd ei hun. Beirniadwyd y gyfrol yn Llyfr y Flwyddyn yn y categori barddoniaeth yn 2011. Dewiswyd y teitl oherwydd Karen Owen oedd enillydd cyntaf Het Goffa Iwan Llwyd yng Ngŵyl Maldwyn 2010. Mae'r 86 o gerddi sydd yn y gyfrol wedi eu dosbarthu i bum categori o dan y teitlau 'Oesol', 'Gwleidyddol', 'Pobl', 'Crwydrol' a 'Beunyddiol', ond mae'r ffin rhwng yr adrannau yn fain; er enghraifft, ni fyddai'r gerdd gyntaf, 'Iwan', sydd yn y categori 'Oesol', yn edrych allan o'i lle yn yr adran 'Pobl'. Yn y categori 'Gwleidyddol' mae hi'n trafod ymysg pethau eraill ei hanghymeradwyaeth o'r rhyfel yn Affganistân a thaeogrwydd rhai Cymry i'r teulu brenhinol.

*Glaniad* yw teitl ei thrydydd detholiad o gerddi a luniodd ar y cyd â Mererid Hopwood, pan aeth y ddwy i'r Ariannin i ddathlu cant a hanner o flynyddoedd ers sefydlu'r Wladfa yn 1865. Ceir ynddo gyfres o gerddi yn disgrifio profiadau y ddau fardd yn eu taith o Buenos Aires drwy drefi dwyreiniol y Wladfa a chroesi'r paith nes cyrraedd Bariloche yn y gorllewin. Ceir hefyd yn y gyfrol fap o'u taith, nodiadau yn egluro cefndir rhai o'r cerddi ac ychydig o luniau yn y canol, rhai yn dangos y ddwy yn cynnal gweithdy barddonol yn Ysgol yr Hendre, Trelew. Cynhwysir un o gynhyrchion y gweithdy hwn gan ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 o dan gyfarwyddyd y ddau fardd. Ceir hefyd yn y gyfrol gerddi i leoedd, i arferion, i brofiadau ac i unigolion.

Merch amlochrog iawn yw Karen Owen. Nid yw wedi cyfyngu ei dawn greadigol i farddoniaeth yn unig. Fe wnaeth ei chwilfrydedd newyddiadurol a'i sylw-garwch treiddgar ei harwain i dybio bod rhyw ddirgelwch ym marwolaeth ei hen nain a fu farw'n ddisymwth yn ei chartref yn 1949. Aeth ati i ymchwilio'r digwydd-iad, a darlledwyd ffrwyth ei hymchwil mewn rhaglen deledu ym mis Gorffennaf 2009 ar y teitl *Cyfrinach Olaf Frida*.

Yn ogystal â llenydda ei hun mae hi'n hyfforddi eraill yn y gelfyddyd farddol, gan gynnwys treulio rhai misoedd yn darlithio ar Lenyddiaeth Cymru ym Mhrifysgol Fienna. Mae hi wedi cyd-weithio gyda cherddorion fel Geraint Jarman a Robat Arwyn ac wedi cyn-hyrchu cryno-ddisgiau o'i cherddi ei hun. A hithau heb gyrraedd hanner cant oed eto, bid sicr fod llawer mwy o gynhyrch-ion ganddi ar y gwëyll ac y cawn edrych ymlaen at eu darllen yn y dyfodol.

# Diolch am Gyfle i Ddiolch

### *Robin Gwyndaf*

**Hyfrydwch arbennig i mi oedd cael paratoi'r gyfrol: *Meddyg y Galon Glwyfus. Gofal am Iechyd Meddwl, a Chymwynas Fawr Dr David Enoch*. Ei hysgrifennu a'i chyd-ddylunio. Mawr fy mraint a mawr iawn y fendith.**

Cyfrol clawr caled, arbennig o gain, wedi'i hargraffu gan Wasg Cambrian, Pontllan-fraith, Gwent, gynt o Aberystwyth. 231 tudalen; 104 o luniau. A phob llyfr wedi'i rifo. Cyhoeddwyr: Cyhoeddiadau'r Gair. Pris: £15 yn unig.

Un rheswm paham y dewisais roi diwyg hardd i'r gyfrol, beth bynnag y gost, yw oherwydd mai 'diolch am destun diolch' yw'r prif thema. Yn wir, dyna bennawd hanner cyntaf y llyfr. Rhoddion prydferth iawn yw iechyd y corff a'r meddwl; tawelwch meddwl; tangnefedd. A gweithgarwch hardd iawn yw cael diolch am y rhoddion anghymharol hyn. Onid y llenor mawr o Rwsia, Fyodor Dostoevsky, a ddywedodd mai 'Prydferthwch fydd yn achub y byd'?

Diolch yw'r ddolen aur sy'n cydio pob rhan o'r gyfrol hon ynghyd. **Diolch o waelod calon i bawb am bob gofal, cariad, ac arbenigedd**, ac yn arbennig yn y cyfnod pryderus hwn. Boed feddygon, seiciatryddion a chwnselwyr; holl weithwyr y Gwasanaeth Iechyd; caredigion sy'n gofalu'n dyner o ddydd i ddydd am eu hanwyliaid yn eu cartrefi; gweinidogion, offeiriaid a chaplaniaid; cymwynaswyr rif y gwlith; a myrdd o asiantaethau dyngarol. Pawb.

Mor llawen yr oeddwn o gael talu teyrnged i'r seiciatrydd enwog, y **Dr David Enoch**, Caerdydd, 95 mlwydd oed, genedigol o Ben-y-groes, Caerfyrddin. Y deyrnged yn seiliedig ar bortread ei frawd yng nghyfraith, Malcolm T Rees, Rhydaman, ac wedi'i golygu gennyf i.


Yn 1974 penodwyd David Enoch yn Ymgynghorydd Seiciatryddol Awdurdod Iechyd Rhanbarthol Glannau Mersi, ac yn Ddarlithydd ym Mhrifysgol Lerpwl. Pan ymddeolodd yn 1987, fe'i gwnaed yn Ymgynghorydd Seiciatryddol Emeritws. Y mae hefyd yn Ysbyty Brenhinol Lerpwl goflech â'r geiriau hyn arni:



*Dr David Enoch*
Llun: Ymddiriedolaeth Wellcome

***1987***
***TO MARK HIS EXCEPTIONAL SERVICES***
***TO PSYCHIATRY IN THE MERSEY REGION***
***THIS UNIT WAS NAMED***
***ON HIS RETIREMENT FROM THE RLH***
***THE***
***DR M DAVID ENOCH UNIT***

Y mae Dr Enoch yn awdur nifer fawr o erthyglau a chyfrolau adnabyddus, a rhai ohonynt wedi'u cyfieithu i fwy nag un iaith. Cafwyd un argraffiad ar ddeg o'i gyfrol: *Healing the Hurt Mind: Christian Faith and Clinical Psychiatry* (1983), ac yn Ionawr 2021 cyhoeddwyd pumed argraffiad o gyfrol a ystyrir yn un o glasuron y byd meddygol: *Uncommon Psychiatric Syndromes* (argraffiad 1af 1967).




Yr un modd, gwerthfawr iawn yw ei unig gyfrol Gymraeg: *Y Deg Gorchymyn Heddiw ac Erthyglau Eraill* (Cyhoeddiadau'r Gair; 2014; golygwyd gan y Parchg John Pritchard). Yn ogystal â'r erthyglau crefyddol â'u neges gyfoes, ceir yn y gyfrol bwysig hon amryw erthyglau sy'n ymwneud â seicoleg a seiciatryddiaeth, cyfraniadau arloesol, yn arbennig yn y Gymraeg. Y mae un ohonynt, er enghraifft, yn cynnwys sylwadau treiddgar ar nofel Kate Roberts, *Tywyll Heno*.

Yn rhan gyntaf *Meddyg y Galon Glwyfus*, hyfrydwch arbennig i mi oedd cael cyflwyno hefyd bortreadau byrion o nifer o feddygon a seiciatryddion ardderchog iawn o Gymru y mae ein dyled iddynt yn fawr. Un ohonynt yw'r Athro Mari Lloyd-Williams, Prifysgol Lerpwl a Waengoleugoed, ger Llanelwy.

O blith cymwynaswyr eraill y cefais y fraint fawr o sôn amdanynt y mae Wynford Ellis Owen a Carol Hardy, Stafell Fyw Caerdydd; Pamela Evans, Treforys, sefydlydd Heddwch Mala i blant Cymru; a Rhian Evans, Caerfyrddin, a'i gwasanaeth amhrisiadwy i'r deillion, fel yr adroddir amdano ganddi yn ei chyfrol ddiweddar: *Siarad Cyfrolau: Speaking Volumes* (Llyfrau Llafar Cymru, 2021).

Cyflwynwyd yn y gyfrol arwyddluniau a gwybodaeth gryno am lu mawr o elusennau a mudiadau dyngarol sy'n cyflawni gwasanaeth rhagorol iawn. Yr oeddwn yn falch iawn yn ogystal o gael cyfeirio at rai cyfrolau perthnasol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, megis cyfrol werthfawr Dr Prydwen Elfed-Owens: *Na Ad Fi'n Angof. Byw â Dementia* (2020).

Mewn un adran o'r gyfrol rwy'n diolch am y fendith fawr a brofais innau yn cael cyfle i wneud fy rhan fechan yng Nghaerdydd a'r cyffiniau i gynorthwyo'r anghenus. Hefyd i

gydweithio gydag Eleri, fy mhriod, yn ein gofal am y digartref ac i ymgyrchu ar ran carcharorion cydwybod mewn llawer gwlad sy'n parhau, er mawr gywilydd iddynt, â'r arfer farbaraidd o boenydio.

Gwneir apêl ddwys yn y gyfrol hefyd ar i Lywodraeth Prydain roi'r flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Iechyd ac i ymchwil meddygol, yn hytrach na gwario biliynau lawer ar filitariaeth ac arfau rhyfel a niwclear. Yng ngeiriau Pryderi Llwyd Jones:

Nid bomiau i ladd,<br>Ond iechyd i'r claf.

Wedi talu'r costau, dosberthir unrhyw elw o werthiant y llyfr hwn rhwng dau achos arbennig o deilwng: y Stafell Fyw yng Nghaerdydd, a Gofal Dydd Waengoleugoed, gyda'r Athro Mari Lloyd-Williams yn brif ysgogydd.

Yn ychwanegol at fy sylwadau gwerthfawrogol i, adroddodd Mari Lloyd-



*Yr Athro Mari Lloyd-Williams*

Williams beth o hanes gwasanaeth ardderchog Gofal Dydd yn ei chyfrol, *Stori Capel Waengoleugoed, Sul, Gŵyl a Gwaith: Dathlu Dauganmlwyddiant (1815-2015) yr Achos* (Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 2015). Meddai'r Dr D Ben Rees yn ei gyflwyniad i'r gyfrol hon: 'Nid dirywiad [achos crefyddol] a welwn yn Waengoleugoed, ond "Ynys Afallon Gristnogol" yr unfed ganrif ar hugain.

... Mae'r esgid fach yn gwasgu<br>Mewn man na wyddoch chwi,<br>A llawer gofid meddwl<br>Sy'n torri nghalon i.

Dyna eiriau dwys yr hen bennill cyfarwydd. Pleser arbennig i minnau oedd cael cyhoeddi yn *Meddyg y Galon Glwyfus*, gyda mawr ddiolch, gerddi ardderchog iawn gan nifer o feirdd. Hyderaf y cewch gyfle i'w gwerthfawrogi. Ceir rhai cerddi hefyd gennyf innau.

**Rwy'n cloi'r ysgrif hon gan ddiolch o galon i chwi, gyfeillion hoff *Yr Angor*, am eich cwmni, a dymuno ichwi bob bendith.**

# LLONGYFARCHIADAU I DEULU ROBERTS

Ar ddechrau mis Hydref rhedodd Alun Roberts yn Marathon Llundain er budd y Rainforest Foundation er gwaethaf y ffaith ei fod yn cwyno gyda problemau o'i ysgyfaint. Roedd yn hapus iawn gyda'i amser o 4 awr 22 munud.

Yn hwyrach yn y mis roedd achos i ddathlu am gamp bwysig rhywun arall yn y teulu. Fel arfer mae person yn dathlu penblwydd arbennig trwy gynnal parti i'w ffrindiau neu mynd am wyliau ecsotig. Dim yna oedd dymuniad Idris Roberts. Roedd ei blant wedi gofyn beth hoffai gael ar ei benblwydd ac ei ddymuniad oedd dringo Cader Idris. Fel anrheg, bu iddynt logi tŷ yn Arthog, i'r 11 ohonynt aros am dair noson. Dathlodd dechreuad ei wythfed degawd trwy ddringo Cader Idris gyda'i deulu a mwynhau y penwythnos yn y cyffiniau! Llongyfarchiadau Idris.







***Alun gyda'r fedal***



***Teulu Idris ar ben Cader Idris***<br>***Sefyll: Lauren a Gemma. Yn eistedd: Elin, Alun, Idris, Dewi, Mair, Gareth a Harri***